sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Trwydded Gwasanaethau Ychwanegol

Datganiad yn dilyn ein hymgynghoriad 'Hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol radio cenedlaethol'

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Hydref 2021

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 3

2. Penderfyniadau ynghylch agweddau ar y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol nesaf 6

## Atodiadau

A1. Capasiti dros ben 11

A2. Cyfrifo refeniw cymwys 12

# 1. Trosolwg

**Ein penderfyniad – yn gryno**

Gwasanaethau ychwanegol yw gwasanaethau sy'n defnyddio'r capasiti 'sbâr' o fewn y signalau sy'n cludo gwasanaethau darlledu sain ar amleddau perthnasol, er enghraifft i drawsyrru data.

Mae'n rhaid i Ofcom wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr holl gapasiti sbâr ar amleddau perthnasol sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Ychwanegol yn cael ei ddefnyddio er mwyn eu darparu o dan drwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol.

Un Drwydded Gwasanaeth Ychwanegol sydd ar hyn o bryd. Fe'i delir gan INRIX UK Ltd ac fe'i defnyddir i drawsyrru gwybodaeth am draffig a theithio ar ffyrdd i ddyfeisiau llywio mewn ceir, gan ddefnyddio capasiti sbâr ar yr amleddau FM cenedlaethol a ddefnyddir i ddarlledu Classic FM. Bydd trwydded INRIX yn dod i ben ar 28 Chwefror 2022.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar faterion yn ymwneud â rhai o nodweddion trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd. Mae'r ddogfen datganiad hon yn egluro ein penderfyniadau ar y materion y buom yn ymgynghori yn eu cylch. Rydym hefyd wedi cyhoeddi hysbyseb trwydded ar ffurf Hysbysiad yn nodi cynnig Ofcom i roi trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd. Cyhoeddir hwn ar wahân i'r datganiad hwn, ond ar yr un pryd.

1.1 Gwasanaethau ychwanegol yw gwasanaethau sy'n defnyddio'r capasiti 'sbâr' o fewn y signalau sy'n cludo gwasanaethau darlledu sain ar amleddau perthnasol, er enghraifft i drawsyrru data. Gellir eu darparu o dan drwyddedau a roddir gan Ofcom o dan Ddeddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990").

1.2 Mae'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol gyfredol ar gyfer radio, sy'n cael ei dal gan INRIX UK Ltd ("INRIX"), yn cael ei defnyddio i drosglwyddo gwybodaeth am draffig a theithio ar ffyrdd i ddyfeisiau mewn ceir drwy ddefnyddio'r is-gariwr RDS ar yr amleddau sy'n cael eu defnyddio i ddarlledu'r gwasanaeth darlledu sain Classic FM o dan drwydded INR1. Mae'r drwydded INR1 yn cael ei dal gan Classic FM Ltd. Daw'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol gyfredol i ben ar 28 Chwefror 2022.

1.3 Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar faterion yn ymwneud â hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad hwn ymysg randdeiliaid drwy ein rhestr bostio sy'n ymwneud â radio. Mae'r ddogfen datganiad olaf hon yn egluro ein penderfyniadau ar y materion y buom yn ymgynghori yn eu cylch. Hysbysebir trwydded newydd ochr yn ochr â chyhoeddi'r ddogfen hon.

## Yr ymgynghoriad

1.4 Pwrpas ein dogfen ymgynghori oedd ceisio barn ar ein cynigion ynghylch yr agweddau canlynol ar y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd:

- hyd y drwydded;

- penderfynu faint o gapasiti dros ben sydd ar gael i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol o dan y drwydded newydd arfaethedig; a
- lefel y taliad (blynyddol) sydd i'w wneud gan ddeiliad y drwydded newydd ar sail canran benodol o'r Refeniw Cymwys ("PQR").

1.5 Gofynnwyd pum cwestiwn i gyd am y materion hyn:

- Cwestiwn 1: A ddylai hyd y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol fod yn fyrrach na'r naw mlynedd a dau fis a gynigir? Os felly, rhowch sylwadau ar ba mor hir y dylai fod, yn eich barn chi, ac esboniwch pam, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth a allai fod gennych i gefnogi eich dadansoddiad.
- Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â phenderfyniad arfaethedig Ofcom ynghylch y capasiti dros ben a fyddai ar gael i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol o dan y drwydded newydd arfaethedig?
- Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o'r ffactorau i'w hystyried wrth bennu lefel y PQR?
- Cwestiwn 4: Ar ba lefel y dylid gosod y PQR?
- Cwestiwn 5: a oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y cynigion?

1.6 Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn nodi'r safbwynt cyfreithiol ar rai materion eraill sy'n ymwneud â'r drwydded newydd arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys y broses y bydd Ofcom yn ei dilyn wrth ystyried ceisiadau am y drwydded a gwneud penderfyniad dyfarnu. Yr oedd yr hyn a ddywedwyd gennym am y materion hyn er budd rhanddeiliaid, ac nid ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r materion yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Fodd bynnag, fe wnaethom wahodd rhanddeiliaid i roi sylwadau ar yr hyn a ddywedwyd gennym.

1.7 Ni chafwyd ymateb i'r ymgynghoriad.

## Penderfyniadau Ofcom

1.8 Mae penderfyniadau Ofcom ar y materion sydd wedi'u nodi ym mharagraff 1.4 uchod wedi'u crynhoi yn y paragraffau isod. Yn adran 2 y datganiad hwn rydym yn nodi'n llawnach yr hyn roeddem wedi'i gynnig yn ein dogfen ymgynghori, a'r rhesymeg sy'n cefnogi ein penderfyniadau. Ni chafwyd ymateb i'n hymgynghoriad.

### Hyd

1.9 Bydd y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd yn cael ei rhoi am gyfnod o naw mlynedd a dau fis ar y mwyaf, gan ddechrau ar 1 Mawrth 2022 a dod i ben ar 30 Ebrill 2031[1] ar yr un dyddiad â'r drwydded INR1 bresennol. Fodd bynnag, bydd modd terfynu'r drwydded yn gynharach am *unrhyw reswm* (fel yr eglurir yn yr hysbyseb ar gyfer y drwydded a thelerau drafft y drwydded sy'n cyd-fynd â hi).

[1] Oni bai fod y trwyddedai'n cytuno ar ddyddiad dechrau gwahanol gydag Ofcom (a bydd hyd y drwydded yn fyrrach os bydd y dyddiad dechrau'n hwyrach).

## Amlder perthnasol a chapasiti dros ben

1.10 Bydd Ofcom yn hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd i ddefnyddio capasiti dros ben yn amleddau dynodedig Classic FM a ddefnyddir i ddarlledu'r gwasanaeth darlledu sain Classic Fm o dan drwydded INR1; a bydd amlder a swm y capasiti dros ben ar gyfer y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd yr un fath ag ar gyfer y drwydded bresennol, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r datganiad hwn.

## Canran y Refeniw Cymwys (PQR)

1.11 Rydym yn bwriadu pennu lefel y taliad blynyddol ar gyfer y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd fel canran o'r refeniw cymwys (PQR), sef 4%.

# 2. Penderfyniadau ynghylch agweddau ar y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol nesaf

2.1 Ym mis Medi eleni, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar y bwriad i roi trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio barn ar dair agwedd ar y drwydded arfaethedig:

- a ddylai hyd y drwydded newydd fod yn fyrrach na'r uchafswm posibl yn yr amgylchiadau;
- penderfynu faint o gapasiti dros ben sydd ar gael i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol o dan y drwydded newydd arfaethedig; a
- lefel y taliad (blynyddol) sydd i'w wneud gan ddeiliad y drwydded newydd ar sail canran benodol o'r Refeniw Cymwys ("PQR").

2.2 Ni chafwyd ymateb i'n hymgynghoriad.

## Hyd y drwydded

2.3 Yn ein dogfen ymgynghori, cynigiodd Ofcom y dylai'r drwydded newydd bara naw mlynedd a dau fis ar y mwyaf, gan redeg o 1 Mawrth 2022 tan 30 Ebrill 2031, fel ei bod yn dod i ben pan fyddai trwydded gwasanaeth darlledu sain Classic FM yn dod i ben, yn hytrach na bod yn ddim byrrach. Gwnaethom nodi efallai na fyddai'r drwydded arfaethedig, o dan y fframwaith cyfreithiol presennol, yn hwy na'r cyfnod a gynigir, ond roeddem yn gofyn am farn ynghylch a ddylai cyfnod y drwydded fod yn fyrrach na naw mlynedd a dau fis.

### Cynnig yr ymgynghoriad

2.4 Gwnaethom ofyn yn y ddogfen ymgynghori:

*A ddylai hyd y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol fod yn fyrrach na'r naw mlynedd a dau fis a gynigir? Os felly, rhowch sylwadau ar ba mor hir y dylai fod, yn eich barn chi, ac esboniwch pam, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth a allai fod gennych i gefnogi eich dadansoddiad.*

2.5 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom nodi'r cyswllt anorfod rhwng y Gwasanaeth Ychwanegol a'r gwasanaeth INR1 y mae'n cael ei gludo ar ei amleddau. Mae'r cyntaf yn dibynnu ar yr olaf, a rhaid iddo ddod i ben os daw'r olaf i ben. Felly, ni all y Gwasanaeth Ychwanegol newydd ddod i ben ar ddyddiad sy'n hwyrach na'r drwydded INR1 gyfredol. Bydd y drwydded INR1, a ddelir gan Classic FM Limited, yn dod i ben ar 30 Ebrill 2031.

2.6 Yna ystyriwyd a ddylai hyd y drwydded fod yn fyrrach na'r cyfnod hiraf a nodir uchod. Roeddem wedi nodi dau reswm pam nad dyma'r dull gorau, fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2016:

- mae trwyddedai yn debygol o fod eisiau i'r cyfnod trwydded hwyaf posib fod ar gael; a

- rydym yn cydnabod, mewn arwerthiant, po hwyaf y drwydded, mwyaf fydd nifer y cynigwyr tebygol ar ei chyfer, ac uchaf fydd y cynigion y gallent fod yn barod i'w gwneud.

2.7 Fe wnaethom egluro nad ydym o'r farn bod yr amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers mis Ionawr 2017 (diwedd yr ymgynghoriad yn 2016). Felly, yn amodol ar ymatebion a thystiolaeth i'r ymgynghoriad hwn, roeddem yn cynnig peidio â chwtogi hyd y drwydded hon ac y dylai bara am naw mlynedd a dau fis.

### Penderfyniad

2.8 Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad y gallem eu hystyried wrth asesu ein cynnig ar gyfer cyfnod y drwydded. Felly, rydym yn glynu wrth y rhesymeg sydd wedi'i nodi yn ein dogfen ymgynghori i gefnogi ein cynnig. O ganlyniad, byddwn yn cyhoeddi'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd am gyfnod o naw mlynedd a dau fis, gyda dyddiad gorffen yn cyd-daro â dyddiad gorffen y drwydded INR1 gyfredol.

## Capasiti dros ben sydd ar gael

### Cynnig yr Ymgynghoriad

2.9 Yn ein dogfen ymgynghori, cynigiodd Ofcom:

- yn amodol ar gadarnhad terfynol gan ddeiliad y drwydded INR1, y dylem hysbysebu a dyfarnu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd maes o law i ddefnyddio capasiti sbâr o fewn amleddau sydd wedi'u dyrannu i Classic FM o dan drwydded INR1; ac
- y dylai hyd a lled a natur y capasiti sbâr sydd ar gael i ddarparu Gwasanaethau Ychwanegol fod yr un fath â'r hyn sydd ar gael o dan y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol gyfredol.

2.10 Nodwyd ein manylebau technegol arfaethedig ar gyfer y drwydded newydd yn Atodiad 4 y ddogfen ymgynghori a gofynnwyd:

*Ydych chi'n cytuno â phenderfyniad arfaethedig Ofcom ynghylch y capasiti dros ben a fyddai ar gael i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol o dan y drwydded newydd arfaethedig?*

2.11 Gwnaethom nodi, yn ein dogfen ymgynghori, swyddogaethau a phwerau Ofcom o dan adran 114 o Ddeddf 1990 sy'n ymwneud â phenderfynu ar y capasiti sbâr sydd ar gael mewn perthynas â'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol ac INR1.

2.12 Fe wnaethom nodi, pan ystyriwyd y mater hwn y tro diwethaf yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2016, y byddai penderfyniad i ddarparu o leiaf yr un capasiti ag sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Gwasanaethau Ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol a fyddai'n gweddu i brif ddyletswyddau a dyletswyddau cyffredinol Ofcom i sicrhau ystod eang o wasanaethau ledled y DU, ac i wneud y defnydd gorau posibl o sbectrwm.

2.13 Wrth bennu faint o gapasiti sbâr sydd ar gael ar yr amleddau perthnasol, mae'n rhaid i ni ystyried unrhyw angen gan ddeiliad trwydded Classic FM, Classic FM Ltd, i allu defnyddio rhan o'r signalau sy'n cludo ei wasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n ategol i raglenni sydd wedi'u cynnwys yn ei wasanaeth. Mae trafodaethau Ofcom â Global Radio, rhiant-gwmni Classic FM, yn dangos y bydd yr un faint o gapasiti dros ben ar gael ar yr amleddau perthnasol.

### Penderfyniad

2.14 Credwn fod y rhesymeg y tu ôl i'n cynnig yn dal i sefyll, ac nid ydym wedi cael unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad i herio'r safbwynt hwn. Bydd y capasiti sydd ar gael ar gyfer y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd fel y nodir yn ein hymgynghoriad, ac yn Atodiad 1 y datganiad hwn – yr un fath â'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol bresennol.

## Taliadau fel Canran o Refeniw Cymwys

### Cynnig yr Ymgynghoriad

2.15 Mae'n ofynnol i ddeiliad trwydded Gwasanaethau Ychwanegol, o dan adran 118 Deddf 1990, wneud taliad bob blwyddyn o'r swm a bennir yn ei gynnig mewn arian (sy'n cael ei gynyddu'n flynyddol gan RPI) a thaliad ychwanegol yn seiliedig ar Ganran Refeniw Cymwys ("PQR") a bennir gan Ofcom (ac a all fod yn ddim). Mae'r taliadau hyn yn mynd i Drysorlys EM.

2.16 Byddai'n rhaid i unrhyw gwmni sy'n ceisio cael y drwydded wneud asesiad cyffredinol o raddfa ac amseriad costau a refeniw yn y dyfodol fel rhan o'r broses o lunio cynllun busnes a byddai'r taliad PQR yn un o'i gostau.

2.17 Un o effeithiau pennu PQR uwchben sero fyddai newid mewn taliadau o gynigion mewn arian i daliadau PQR. Fodd bynnag, gall fod nifer o resymau pam y gallai lefel y PQR wneud mwy na newid maint cymharol y ddau daliad. Gall hyn effeithio ar wir ganlyniad y broses ddyfarnu (gan gynnwys pwy yw'r enillydd a'r refeniw a gynhyrchir) ac ymddygiad yr enillydd ar ôl dyfarnu'r drwydded. Fe wnaethom nodi nifer o faterion yn yr ymgynghoriad:

2.18 Os yw lefel y PQR yn rhy uchel, gallai'r drwydded fynd yn ddielw (gan na ellid addasu'r cynnig arian parod i fod yn llai na sero) ac efallai na fydd unrhyw gynigion. Mae hyn yn tueddu i gefnogi PQR sero neu o leiaf isel.

2.19 Mae PQR sy'n fwy na sero yn rhoi mantais i gwmnïau sydd â model busnes refeniw isel/cost isel o'i gymharu â chystadleuwyr sydd â model busnes refeniw uchel/costau uchel. Mae hyn hefyd yn tueddu i gefnogi PQR o sero, neu o leiaf isel.

2.20 Mae PQR sy'n fwy na sero yn caniatáu rhannu risg mewn perthynas ag amrywiadau refeniw. Gallai hyn effeithio'n wahanol ar wahanol gynigwyr. At ei gilydd, nid oeddem o'r farn y byddai'n effeithlon pennu PQR nad yw'n sero gan ei fod yn caniatáu rhannu risg.

2.21 Mae'n bosib y gallai PQR nad yw'n sero effeithio ar ddyrannu'r drwydded yn effeithlon fel rhan o'r broses ddyfarnu hon, yn enwedig os nad yw'r arwerthiant yn gystadleuol iawn. Ond nid yw'n glir a fyddai'n gwella neu'n gwaethygu'r dyraniad yn yr arwerthiant.

2.22 Gallai PQR sy'n fwy na sero aflunio ymddygiad y cynigydd buddugol drwy gymell busnesau i beidio ag ehangu (gan fod pob £1 ychwanegol o refeniw yn cynyddu ei daliad trwydded wrth £1 wedi'i luosi â'r gyfradd PQR). Mae hyn yn tueddu i gefnogi PQR sero neu o leiaf isel.

2.23 Roeddem o'r farn bod yr ystyriaethau hyn yn ddadl gref yn erbyn PQR uchel, ac yn dadl o blaid PQR isel neu sero.

2.24 Nodwyd hefyd bod lefel gyfredol PQR o 4% i'w gweld yn gweithio'n eithaf da. Dim ond un cynigydd oedd yn yr arwerthiant yn 2017. Mae'r trwyddedai presennol, INRIX, wedi darparu gwasanaethau defnyddiol i ddefnyddwyr. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau sydd wedi codi o'r lefel PQR bresennol.

2.25 Ar sail yr ystyriaethau hyn, ymgynghorwyd ar ddau brif opsiwn:

- pennu cyfradd PQR o sero; neu
- cadw PQR 4% fel y defnyddir ar gyfer y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol gyfredol.

2.26 Gofynnwyd dau gwestiwn yn ymwneud â'r broses PQR:

*Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o'r ffactorau i'w hystyried wrth bennu lefel y PQR?*

*Ar ba lefel y dylid gosod y PQR?*

### Penderfyniad

2.27 Credwn fod y dadansoddiad sy'n arwain at ein cynnig ar PQR yn gywir. Nid ydym wedi cael unrhyw ymatebion i'r cynigion hyn i herio ein rhesymeg. Gan hynny, rydym yn bwriadu pennu lefel y taliad blynyddol ar gyfer y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd fel canran o'r refeniw cymwys (PQR) ar 4%, yr un fath a'r drwydded Gwasanaethau Ychwanegol gyfredol.

## Dull dyfarnu

2.28 Yn ein dogfen ymgynghori, nodwyd ein bwriad i fabwysiadu dull dau gam o ddyfarnu'r drwydded:

- yn gyntaf, byddwn yn gwahodd ceisiadau am arian; ac
- yna, os oes mwy nag un cynigydd cymwys ar gyfer y drwydded, byddwn yn ystyried a oes amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn briodol i Ofcom ddyfarnu'r drwydded i ymgeisydd ar wahân i'r cynigydd uchaf.

## Casgliadau

2.29 Ni chafwyd ymateb i'n hymgynghoriad. Felly, rydyn ni'n bwriadu dilyn y dull gweithredu sydd wedi'i nodi yn Adran 6 ymgynghoriad y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol ym mis Medi 2021.

# A1. Capasiti dros ben

## Capasiti RDS sydd ar gael

A1.1 Bydd y gwasanaeth yn cael ei weithredu ar yr is-gariwr RDS sy'n cydymffurfio â safon 62106:2018/2021 gan ddefnyddio un neu fwy o'r nodweddion canlynol a ganiateir yn unig:

- TDC (Grŵp 5A)
- Tudalennu (RP) (Grŵp 7A gyda rhan o Grŵp 1A)
- TMC (Grŵp 8A)
- IH (Grŵp 6A yn unig)
- ODA (Grwpiau Amrywiol a ganiateir: cyfeiriwch at y fanyleb)

A1.2 Bydd y gyfradd ailadrodd grŵp sydd ar gael i'r Trwyddedai i'r graddau sy'n angenrheidiol fel a ganlyn:

- 2.4 grŵp/eiliad ar gyfartaledd, ar gyfartaledd dros unrhyw gyfnod o un funud
- o leiaf 1 grŵp mewn unrhyw eiliad
- grwpiau/eiliadau ar gyfer eiliadau olynol ym mhob cyfnod o bum munud ym mhob awr;
- y rhannau hynny o'r capasiti signal uwchben yn y ffrwd bit RDS, yn enwedig mathau o grwpiau 3A, sy'n angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r grwpiau Gwasanaethau Ychwanegol y cyfeirir atynt uchod.

A1.3 Ni fydd unrhyw gapasiti pellach y tu hwnt i hyn ar gael i'r Trwyddedai.

A1.4 Rhaid i isafswm gwyriad y cludydd FM oherwydd yr is-gariwr RDS wedi'i fodiwleiddio fod yn ± 2.0 kHz, a rhaid i'r gwyriad mwyaf fod yn ± 2.5 kHz.

# A2. Cyfrif refeniw cymwys

A2.1 Yn adran 2 y datganiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i un o'r taliadau ychwanegol – y PQR (canran o refeniw cymwys). O dan Ddeddf Darlledu 1990 a Deddf Darlledu 1996 mae'n rhaid i Ofcom lunio, ac o bryd i'w gilydd adolygu, datganiad yn nodi'r egwyddorion i'w dilyn wrth benderfynu ar daliadau ychwanegol sy'n ddyledus mewn perthynas â refeniw cymwys.

A2.2 I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifo refeniw cymwys, ewch i'r datganiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006 ac sydd mewn grym ar hyn o bryd.